**Mark Drakeford AM/AC**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol**
**Cabinet Secretary for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Huw Irranca-Davies AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Ionawr 2017

Dear Huw,

**BIL TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU)**

Hoffwn ddiolch i chi a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eich adroddiad ar Fil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

Rwyf wedi ystyried argymhellion y Pwyllgor a byddaf yn cyfeirio at y rhain yn ystod y ddadl yn y Cyfarfod Llawn heddiw ar egwyddorion cyffredinol y Bil. Er hynny, cyn y ddadl roeddwn am ddarparu rhywfaint o wybodaeth bellach a phwyntiau o eglurhad. Rwyf yn gobeithio bod yr wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn yn darparu'r eglurder y mae aelodau'r Pwyllgor yn ei geisio.

**Argymhelliad 1. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet, yn ystod dadl Cyfnod 1, egluro a fyddai rheoliadau a wneir o dan adran 34(6) i newid atebolrwydd person i dalu treth hefyd yn cynyddu atebolrwydd y person hwnnw o ganlyniad, neu'n rhoi atebolrwydd ar berson nad yw'n atebol ar hyn o bryd. Os yw hynny'n wir, dylai Ysgrifennydd y Cabinet egluro pam nad yw'r weithdrefn gadarnhaol yn cael ei chymhwyso wrth wneud y rheoliadau hyn mewn amgylchiadau o'r fath.**

Nodais o'r blaen i'r Pwyllgor fod natur dechnegol rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn golygu y byddai'n briodol eu gwneud yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol. Yn arwyddocaol, tynnais sylw at y ffaith na fyddai effaith y rheoliadau'n cynyddu swm y dreth a

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

godir mewn perthynas â thrafodiad penodol, a bod rheoliadau a wneir o dan y pwerau cymaradwy yn neddfwriaeth y DU a'r Alban yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.

Rhoes fy llythyr dilynol at y Pwyllgor ym mis Tachwedd eglurhad pellach o effaith rheoliadau a wneir o dan adran 34(6). Ni fyddai cynllun ymddiriedolaeth uned a restrir mewn rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn ddarostyngedig i'r rheol yn adran 34, a fyddai'n golygu y byddai newid y person sy'n atebol i dalu'r dreth yn newid o ymddiriedolwyr yr ymddiriedolaeth uned, i ddeiliaid yr uned unigol. Er y byddai hyn yn newid yn y person sy'n atebol i dalu'r dreth, yn ymarferol byddwn yn disgwyl i ddeiliaid unedau unigol dalu'r dreth yn anuniongyrchol drwy'r ymddiriedolwyr fel rhan o'r trefniadau ar gyfer rheoli'r cynllun.

Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod y weithdrefn gywir yn cael ei defnyddio ar gyfer rheoliadau. Er na ellir defnyddio'r rheoliadau hyn i gynyddu faint o dreth sy'n cael ei chasglu, rwyf yn cydnabod y gallai newid y person sy'n atebol i dalu'r dreth deilyngu'r craffu ychwanegol a roddir gan y weithdrefn gadarnhaol. Gan gymryd hyn i ystyriaeth, a chais parhaus y Pwyllgor am eglurdeb rwyf yn falch o ymchwilio i hyn ymhellach, ac i ystyried a ddylai rheoliadau a wneir o dan yr adran hon fod yn destun y weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 2. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet, yn ystod y ddadl Cyfnod 1, ddatgan yn glir pa dystiolaeth, gwybodaeth neu enghreifftiau y bydd yn eu defnyddio i lunio barn ynghylch a yw'r rheoliadau'n cael yr effaith o osod neu gynyddu atebolrwydd i dalu treth, ac yn unol â hynny a ddylid defnyddio'r weithdrefn gadarnhaol.**

Bydd y Pwyllgor yn ymwybodol bod cwmpas y rheoliadau a wneir o dan adran 76 yn gyfyngedig i roi effaith i'r darpariaethau yn y Bil (neu reoliadau a wneir o dano) i sicrhau bod y darpariaethau'n gweithio'n iawn. Yn arwyddocaol, ni ellir defnyddio'r pŵer i wneud darpariaeth newydd, sylweddol yn y Bil hwn, neu i wneud newidiadau sylfaenol i ddeddfwriaeth arall.

Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, esboniais fod y dull gweithredu cyffredinol o benderfynu ar y weithdrefn ddeddfwriaeth briodol ar gyfer y Bil hwn yn dibynnu ar y cwestiwn a allai'r rheoliadau gael effaith sylweddol ar atebolrwydd treth unigolyn. Rwyf yn croesawu casgliad y Pwyllgor bod y dull hwn yn synhwyrol ac yn rhesymegol.

Rwyf yn awyddus i sicrhau bod y dull cyffredinol hwn yn cael ei gynnal ar gyfer rheoliadau a wneir o dan adran 76. Ni ellir ystyried y cwestiwn a fydd y rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn cael effaith sylweddol ar atebolrwydd treth unigolyn ond ar sail pob achos unigol. Cyn dod i benderfyniad, bydd y Gweinidogion yn rhoi sylw penodol i ddiben y Rheoliadau, eu heffaith gyffredinol, yn ogystal ag a yw'r rheoliadau'n cael eu gwneud ar y cyd ag unrhyw bŵer arall.

Gweinidogion Cymru fydd yn penderfynu ar y dewis o weithdrefn. Bydd y penderfyniad yn ddarostyngedig i rwymedigaethau arferol y gyfraith gyhoeddus ac felly fe allai gael ei herio yn y llysoedd. Yn ogystal, os yw Aelod o'r farn bod y dewis o weithdrefn yn amhriodol, bydd cyfle i herio'r penderfyniad drwy gyflwyno cynnig i benderfynu y dylid dirymu'r rheoliadau.

Rwyf wedi ymrwymo o hyd i ddarparu cymaint o wybodaeth â phosibl i'r Cynulliad i sicrhau bod deddfwriaeth yn destun craffu digonol ac felly rwyf yn derbyn yr argymhelliad hwn. Am y rheswm hwn, rwyf wedi cytuno i esbonio sut y mae Gweinidogion Cymru wedi dod i'r penderfyniad hwn yn y memorandwm esboniadol sydd ynghlwm wrth unrhyw reoliadau a wneir o dan yr adran hon.

**Argymhelliad 3. Rydym yn argymell y dylai Ysgrifennydd y Cabinet gyflwyno gwelliant i'r Bil i sicrhau bod rheoliadau a wneir o dan adran 76(1) yn unol ag adran 76(2) yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.**

Rwyf wedi nodi barn y Pwyllgor - ynghyd â'i ragflaenydd - ar y mater ehangach sy'n ymwneud â defnyddio'r weithdrefn negyddol yn achos rheoliadau sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Yn ystod y Cynulliad diwethaf, esboniodd y Prif Weinidog mewn llythyr[1] at y Pwyllgor fod y dewis rhwng y weithdrefn negyddol a chadarnhaol yn ystyried rhinweddau pob achos. Mae'r dewis yn cael ei lywio yn y pen draw gan amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys natur y pŵer, ei gwmpas tebygol, ac o dan ba amgylchiadau y bwriedir i'r pŵer gael ei ddefnyddio.

Yn y cyswllt hwn, rwyf wedi nodi o'r blaen ei bod yn bwysig cofio na ellir defnyddio'r pŵer hwn i wneud rheoliadau sy'n cynnwys darpariaethau newydd sylweddol, nac i wneud newidiadau sylfaenol i ddeddfwriaeth arall nac i ehangu cwmpas y Bil hwn "drwy'r drws cefn". Fel y nodwyd eisoes, byddai rheoliadau a wneir o dan yr adran hon yn gyfyngedig i wneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod y darpariaethau yn y Bil hwn yn gweithio'n iawn, er enghraifft, drwy wneud newidiadau angenrheidiol i ddeddfwriaeth arall o ganlyniad i'r darpariaethau yn y Bil hwn, neu i ddelio â manylion annisgwyl sy'n deillio o roi'r system newydd ar waith.

O gofio'r cwmpas a'r amgylchiadau lle y gellir defnyddio pwerau yn adran 76(1), rwyf yn dal o'r farn y dylai'r weithdrefn briodol ddibynnu ar sylwedd y rheoliadau – hynny yw, a allai'r Rheoliadau gael effaith sylweddol ar atebolrwydd unigolyn i dalu treth, yn hytrach nag un rheol bendant sy'n canolbwyntio ar y cwestiwn a yw'r rheoliadau'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol. Nid wyf felly wedi f'argyhoeddi fod angen cyflwyno gwelliant yn yr achos hwn ac ar y sail honno ni fyddaf yn gallu cefnogi'r argymhelliad hwn.

Gobeithio bod yr wybodaeth a ddarperir yn y llythyr hwn yn rhoi'r eglurder a geisir gan aelodau'r Pwyllgor.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid.



**Mark Drakeford AM/AC**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol
Cabinet Secretary for Finance and Local Government

[1] Llythyr oddi wrth y Prif Weinidog at y Cadeirydd ynghylch diwygio deddfwriaeth sylfaenol, Tachwedd 2015: http://www.senedd.assembly.wales/documents/s46407/Letter%20from%20the%20First%20Minister%20to%20the%20Chair%20regarding%20amending%20primary%20legislation.pdf